

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWEITHGOR RHYDDFRAINT Y FWRDEISTREF

Cofnodion o gyfarfod y Gweithgor Rhyddfraint y Fwrdeistref a gynhaliwyd Dydd Iau, 8 Mawrth 2018 am 9.30 am ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Gweithgor Rhyddfraint y Fwrdeistref Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd M Tegg (Cadeirydd) a Y Cyngorydd P Jarman

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfathrebu
Mrs E Wilkins, Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr J Whitehurst, Swyddog Graddedig

4 Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Maer Aelodau a Swyddogion i'r cyfarfod a chafodd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol A Morgan, M Webber a J James eu nodi.

5 Datgan buddiant

Datganodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol P Jarman y buddiant canlynol mewn perthynas ag eitem 3 yr agenda a gadawodd y cyfarfod pan gafodd is-gategoriâu'r eitem eu trafod (Rhoi Cymorth i Eraill a Gwasanaethau i'r Gymuned):

"Rwy'n adnabod tri o'r ymgeiswyr o fewn y Categori Gwasanaethau i'r Gymuned a Rhoi Cymorth i Eraill".

6 Cofnodion

Cafodd cofnodion o'r cyfarfod, a gafodd ei gynnal ar 15 Chwefror 2018, eu cadarnhau'n rhai cywir.

7 GWOBR DINASYDDION DA

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr – Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus adroddiad i'r Aelodau a amlinellodd yr enwebiadau wedi'u derbyn mewn perthynas â Gwobrau Dinasyddion Da y Maer. Rhoddwyd gwybod i Aelodau fod 53 enwebiad wedi cael eu derbyn, ar draws pump o chwe categori. Doedd dim enwebiadau ar gyfer y categori Cyflawniad Academaidd, er i'r Cyfarwyddwr ychwanegu y gallai unigolyn wedi'i enwebu ar gyfer categori arall gael ei drosglwyddo yn ôl ystyriaeth yr Aelodau, os yw cydnabyddiaeth yn berthnasol i

ddau categori. Atgoffaodd yr Aelodau fod Aelodau wedi symud 'gwobr arbennig' ychwanegol yn ei blaen yn y gorffennol mewn perthynas â'r enwebiadau wedi'u derbyn, pe hoffai Aelodau wneud hynny eto.

Gwnaeth Aelodau sylw am bob enwebiad a'r cyflawniadau ac ymrwymiad anghredadwy wedi'u dangos gan bawb a chytunwyd y dylai pob unigolyn wedi'i enwebu dderbyn llythyr gan y Maer yn cydnabod ei ymrwymadau.

Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** dyfarnu'r Wobr Dinasyddion Da i'r unigolion canlynol:

Categori

Cyflawniad Artistig
Rhoi Cymorth i Eraill
Gwasanaethau i'r Gymuned
Cyflawniad Academaidd
Gwasanaethau i Elusennau
Cyflawniad ym Myd Chwaraeon
Gwobr Elusen Arbennig

Unigolyn llwyddiannus

Craig Roberts
Gary Davies
Y Parchedig Peter Lewis
Dylan Reece Lewis-Rowlands
Karene, Mia a Megan Thorne
Danny Evans
Cyfeillion yr Anifeiliaid RhCT

(**Noder** yn ystod ystyriaethau mewn perthynas â Chategoriâu Rhoi Cymorth i Eraill a Gwasanaethau i'r Gymuned, gadawodd Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol P Jarman y cyfarfod o ganlyniad i'r buddiant wedi'i nodi yng Nghofnod Rhif 5)

8

Daeth y cyfarfod i ben am 10.00 am

**Cllr M Tegg
Cadeirydd.**